**Senedd Cymru**
**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
**Ymchwiliad:** Llwybrau prentisiaeth
**Cyf:** AP21
**Ymateb gan:** Comisiynydd y Gymraeg

-

**Welsh Parliament**
**Economy, Trade, and Rural Affairs Committee**
**Inquiry:** Apprenticeship pathways
**Ref:** AP21
**Evidence from:** Welsh Language Commissioner

**Efa Gruffudd Jones**
Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner



Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

SeneddEconomi@senedd.cymru

06/02/2025

Annwyl Gadeirydd,

**Ymgynghoriad: Llwybrau prentisiaeth**

Diolch am y cyfle i gyfrannu at yr ymgynghoriad uchod. Bydd fy ymateb yn canolbwyntio ar y sector prentisiaethau yng nghyd-destun y Gymraeg. Un o amcanion Llywodraeth Cymru yn ei strategaeth *Cymraeg 2050* yw ehangu darpariaeth addysg bellach ac uwch drwy'r Gymraeg a chynnig cyfleoedd i ddilyn prentisiaethau Cymraeg. Y nod yw cefnogi pawb, ni waeth pa mor rhugl eu Cymraeg, i ddatblygu sgiliau yn yr iaith i'w defnyddio'n gymdeithasol ac yn y gweithle. Fodd bynnag, mae diffyg darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y sector addysg a hyfforddiant ôl-16, yn enwedig mewn meysydd mwy galwedigaethol.

Rydym wedi trafod hyn yn ein hymateb diweddar i ymgynghoriad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar lwybrau at addysg a hyfforddiant ôl-16. Atodwn gopi o'r ymateb hwn gan ei fod yn berthnasol i'ch ymgynghoriad chi. Credwn y bydd o gymorth i chi ddeall yr heriau sy'n wynebu'r rhai sy'n ceisio dilyn llwybr cyfrwng Cymraeg drwy'r sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol, gan gynnwys maes prentisiaethau. Yn yr un modd, hoffem dynnu eich sylw at ein hadroddiad ymchwil am farn a phrofiadau dysgwyr ôl-16 mewn addysg cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog mewn ysgolion a cholegau addysg bellach ledled Cymru. Amlinellwn isod y prif faterion a drafodir yn y ddwy ddogfen.

**Heriau a blaenoriaethau**

Mae nifer o heriau yn y sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol, gan gynnwys:

- diffyg darpariaeth cyfrwng Cymraeg
- anhygyrchedd darpariaeth cyfrwng Cymraeg oherwydd pellter
- prinder cymwysterau cyfrwng Cymraeg
- diffyg hyder pobl ifanc yn eu sgiliau Cymraeg

**Comisiynydd y Gymraeg**
Uned 2, Bloc C
Doc Fictoria
Caernarfon
LL55 1TH

0345 6033 221
post@comisiynyddygymraeg.cymru
**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg**

comisiynyddygymraeg.cymru

**Welsh Language Commissioner**
Unit 2, Block C
Victoria Dock
Caernarfon
LL55 1TH

0345 6033 221
post@comisiynyddygymraeg.cymru
**Correspondence welcomed in Welsh and English**

welshlanguagecommissioner.wales

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

- canfyddiad dysgwyr fod eu hastudiaethau pellach yn debygol o fod yn Saesneg neu fod gwell rhagolygon astudio yn Saesneg

Dylai'r sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol anelu i oresgyn yr heriau hyn drwy weithio ar y blaenoriaethau canlynol:

- gwrthdroi'r gostyngiad yn y niferoedd sy'n astudio cyfran sylweddol o'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn y sector ôl-16, yn enwedig mewn colegau addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith
- sicrhau bod pobl ifanc yn parhau i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg a mabwysiadu continwwm iaith Gymraeg arfaethedig y Llywodraeth i'r perwyl hwnnw
- cynyddu argaeledd cymwysterau cyfrwng Cymraeg ac annog dysgwyr i ymgeisio amdanynt
- cynnig cyfleoedd i unigolion fagu hyder yn y Gymraeg, gan ddylanwadu'n gadarnhaol ar eu canfyddiad o bwysigrwydd yr iaith o fewn cyd-destun gwaith
- creu gweithlu gyda sgiliau Cymraeg digonol, wedi'i ddosbarthu yn strategol ar draws ac o fewn sefydliadau gwahanol yng Nghymru

**Potensial prentisiaethau cyfrwng Cymraeg**

Mae prentisiaethau yn creu cyswllt allweddol rhwng sefydliadau addysg, siaradwyr Cymraeg a'r cwmnïau a'r sectorau sy'n chwilio am weithwyr â sgiliau dwyieithog. Drwy'r cyswllt hwn, mae'n bosibl i'r sector ddiwallu anghenion siaradwyr Cymraeg a'u cymunedau mewn ffordd hynod effeithiol. Gall prentisiaethau osod siaradwyr Cymraeg yn union lle mae eu hangen a drwy hynny gyfrannu'n uniongyrchol at wireddu rhai o amcanion creiddiol strategaeth *Cymraeg 2050*. Mae potensial enfawr i ehangu prentisiaethau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, yn arbennig o ystyried bod y niferoedd sy'n gwneud prentisiaethau cyfrwng Cymraeg yn parhau yn isel iawn ar hyn o bryd. Mae'r Comisiwn Cymunedau Cymraeg wedi galw ar awdurdodau lleol, byrddau iechyd a sefydliadau sector cyhoeddus mawr eraill i gynllunio'n fwy bwriadus er mwyn cynnig rhagor o brentisiaethau cyfrwng Cymraeg. Ym marn y Comisiwn, byddai hyn yn creu amodau ffafriol i alluogi pobl ifanc i aros yn eu cymunedau mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch.[1]

**Data am y Gymraeg ym maes prentisiaethau**

Un o heriau'r sector ôl-16 yw diffyg data clir am y Gymraeg. Mae data cadarn, cyfredol, yn hanfodol er mwyn sefydlu nifer y dysgwyr sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. Rhaid felly rhannu gwybodaeth am sgiliau Cymraeg dysgwyr rhwng ysgolion, darparwyr prentisiaethau a chyflogwyr. Mae angen monitro dilyniant dysgwyr hefyd i fesur eu cynnydd yng nghyd-destun y Gymraeg wrth iddynt gyflawni eu prentisiaethau.

Mae datblygiad dysgu seiliedig ar waith cyfrwng Cymraeg yn cychwyn o waelodlin hynod isel. Mae'r data diweddaraf am y sector dysgu seiliedig ar waith yn dangos rhywfaint o gynnydd yn y gweithgareddau dysgu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog (gweler y tabl isod).

---

[1] Y Comisiwn Cymunedau Cymraeg: [Grymuso cymunedau, cryfhau'r Gymraeg]

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Er hyn, mae'r cynnydd cyffredinol yn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn bennaf seiliedig ar gynnydd yn y gweithgareddau dysgu sy'n cynnwys 'ychydig o ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg'. Er na fyddem yn dymuno diystyru arwyddocâd y cynnydd hwn, mae angen sicrhau bod mwy o ddysgwyr yn gwneud cyfran mwy sylweddol o'u dysgu a'u hyfforddi drwy gyfrwng y Gymraeg yn y sector dysgu seiliedig ar waith.

**Tabl:** Gweithgareddau dysgu yn ôl cyfrwng y ddarpariaeth mewn dysgu yn seiliedig ar waith, Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru, Llywodraeth Cymru[2]

| | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cymraeg yn unig** | **0.3%** 620 | **0.4%** 685 | **0.3%** 515 | **0.3%** 520 | **0.4%** 565 | **0.5%** 675 | **0.8%** 945 | **0.7%** 750 | **0.6%** 710 |
| **Dwyieithog** | **3.4%** 6,475 | **3.1%** 5,045 | **3.2%** 5,135 | **2.9%** 4,850 | **2.9%** 4,305 | **2.9%** 3,620 | **3%** 3,730 | **2.9%** 3,065 | **3%** 3,640 |
| **Swm sylweddol o ddysgu drwy gyfrwng Cymraeg** | **0.2%** 325 | **0.3%** 415 | **0.3%** 465 | **0.3%** 530 | **0.3%** 435 | **0.3%** 380 | **0.4%** 555 | **0.6%** 595 | **0.5%** 580 |
| **Ychydig o ddysgu trwy gyfrwng Cymraeg** | **3.2%** 6,110 | **4.7%** 7,675 | **6.9%** 10,945 | **6.7%** 11,010 | **8.3%** 12,355 | **9.3%** 11,495 | **13.3%** 16,525 | **19.5%** 20,450 | **25.5%** 30,325 |
| **Saesneg yn unig** | **92.8** 174,875 | **91.5%** 148,665 | **89.3%** 142,285 | **89.3%** 147,775 | **88.1%** 130,455 | **87.0%** 107,850 | **82.5%** 102,239 | **76.3%** 79,810 | **70%** 83,210 |
| **Cymraeg a dwyieithog - cyfanswm** | **7.2%** | **8.5%** | **10.7%** | **10.3%** | **11.9%** | **13.0%** | **17.5%** | **23.7%** | **29.6%** |

[2] Gweithgareddau dysgu yn ôl cyfrwng y ddarpariaeth a'r math o ddarparwr mewn dysgu yn seiliedig ar waith

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

## Cymwysterau cyfrwng Cymraeg

Mae diffyg cymwysterau cyfrwng Cymraeg yn broblem ac mae'n golygu nad oes gan ddysgwyr cyfrwng Cymraeg yr un ystod o ddewis o gymwysterau â'u cyfoedion yn y sector cyfrwng Saesneg. Ymhlith yr heriau mae Cymwysterau Cymru wedi eu hadnabod, mae anawsterau gyda recriwtio a chadw aseswyr sy'n medru'r Gymraeg a'r angen am gyllid hir dymor i dalu costau cynnig asesiadau allanol yn Gymraeg.[3] Mae gan Gymwysterau Cymru strategaeth i gynyddu argaeledd cymwysterau cyfrwng Cymraeg. Mae hyn yn cynnwys targedu cymwysterau galwedigaethol ôl-16 yn ôl meysydd blaenoriaeth strategol, gan ymgynghori â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol a chydweithio'n rhagweithiol gyda chyrff dyfarnu. Adroddodd Cymwysterau Cymru ei fod wedi llwyddo i fynd y tu hwnt i'w darged cychwynnol o 120 o gymwysterau i'w blaenoriaethu ar gyfer eu darparu yn Gymraeg rhwng 2023 a 2025. Dylid cefnogi gwaith pellach yn y cyfeiriad hwn.

Rhaid cadw mewn cof bod y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y chweched dosbarth mewn ysgolion yn llawer cryfach na'r hyn a gynigir gan fwyafrif helaeth y darparwyr addysg ôl-orfodol mewn colegau addysg bellach. Fodd bynnag, y colegau addysg bellach, yn hytrach na'r ysgolion, sy'n cynnig y dewis helaethaf o gyrsiau a chymwysterau galwedigaethol. Golyga hyn mai i goleg addysg bellach y mae dysgwyr fwyaf tebygol o fynd i ddilyn cwrs o'r math hwn. Mae dysgwyr sy'n dewis llwybr galwedigaethol, felly, yn llai tebygol o gael dewis darpariaeth a chymwysterau cyfrwng Cymraeg na'r rhai sy'n parhau i astudio mewn ysgol.

## Rôl cyflogwyr yn amlygu'r galw am sgiliau Cymraeg

Pwysleisir yn *Cymraeg 2050* bwysigrwydd darparwyr addysg a hyfforddiant ôl-orfodol wrth gynnal sgiliau Cymraeg dysgwyr er mwyn ateb y galw cynyddol am weithlu dwyieithog. Credwn fod gan gyflogwyr ran bwysig i'w chwarae yn y cyd-destun hwn hefyd, o safbwynt creu'r galw ar gyfer prentisiaid a gweithwyr â sgiliau Cymraeg ac annog dysgwyr i werthfawrogi a datblygu'r sgiliau hynny. Erbyn hyn, mae tua 125 o sefydliadau ar hyd a lled Cymru dan gyfundrefn safonau'r Gymraeg, gan gynnwys rhai o gyflogwyr mwyaf Cymru. Does dim cwestiwn bod y gyfundrefn safonau yn gyfrifol am gynyddu'n sylweddol y galw am unigolion sy'n gallu gweithio'n ddwyieithog. Gwyddom hefyd fod y Gymraeg yn sgil a werthfawrogir gan nifer o sefydliadau y tu hwnt i'r gyfundrefn safonau. Mae'r rhain yn cynnwys busnesau bach a mawr, rhai ohonynt wedi derbyn cydnabyddiaeth y Cynnig Cymraeg gan y Comisiynydd. Dylid ystyried sut i gefnogi cyflogwyr i amlygu'r angen am weithlu â sgiliau Cymraeg. Dylai darparwyr prentisiaethau a chyflogwyr gydweithio â'i gilydd, yn ogystal ag ysgolion, i sicrhau fod llwybr clir o addysg statudol i'r gweithle sy'n gwneud y mwyaf o sgiliau Cymraeg dysgwyr.

[3] Cymwysterau Cymru: *Adroddiad Cynnydd: Ein dull o gynyddu argaeledd cymwysterau galwedigaethol ôl-16 cyfrwng Cymraeg*

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

## Adnabod anghenion yn sail i gynllunio

Ynghlwm â hyn, rhaid deall anghenion sgiliau a chynllunio'r ddarpariaeth ar sail hynny. Mae rôl bwysig yn y cyd-destun hwn i'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol. Yn dilyn adroddiad yn 2019 gan Bwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau ar y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol, cytunodd Llywodraeth Cymru bod rhaid gwella'n sylweddol allu'r Partneriaethau i gasglu a dadansoddi data ar y Gymraeg.[4] Mae Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol y Gogledd wedi mapio llwybrau prentisiaeth a'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg/dwyieithog yn ei hardal. Dylid cefnogi'r Partneriaethau i gyd i ddarparu gwybodaeth gyflawn am y ddarpariaeth prentisiaethau cyfrwng Cymraeg ledled Cymru a gwneud y mwyaf o'u cysylltiadau gyda chyflogwyr i adnabod eu hanghenion. Byddai hyn yn sail i gynllunio'r ddarpariaeth yn fwriadus ac effeithlon a chefnogi prentisiaid â sgiliau Cymraeg.

## Adeiladu ar arfer da

Tri sefydliad sy'n gwneud cyfraniad allweddol i'r maes prentisiaethau cyfrwng Cymraeg yw'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Urdd Gobaith Cymru a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Mae eu gwaith yn cynnwys hyfforddi prentisiaid mewn nifer o wahanol sectorau, gweithio mewn partneriaeth â chyflogwyr a sefydliadau addysg a hyfforddiant, a darparu cyrsiau Cymraeg ac adnoddau arbenigol. Ers 2019 mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn gweithredu'r *Cynllun Gweithredu Addysg Bellach a Phrentisiaethau cyfrwng Cymraeg*. Mae'r cynllun yn gosod camau gweithredu dros y tymor byr, canol a hir mewn perthynas â chwe maes strategol allweddol, gan gynnwys cynyddu capasiti staffio, gwella darpariaeth ac ehangu adnoddau. Rhaid cefnogi'r tri sefydliad wrth barhau â'u gwaith er mwyn cynnal y momentwm y maent wedi ei sefydlu. Dywedodd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, yn ei adroddiad craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25, "Mae sicrhau twf parhaus yn nifer y dysgwyr sy'n ymgymryd â rhywfaint neu'r cyfan o'u haddysg ôl-16 yn Gymraeg, yn hanfodol, ac yn arbennig mewn prentisiaethau a dysgu seiliedig ar waith."[5]

Bydd gan Medr ran ganolog yn cydlynu'r gwaith hwn gan ddefnyddio dull cydweithredol i ddatblygu'r ddarpariaeth Gymraeg ar draws y sector addysg drydyddol, gan gynnwys prentisiaethau. Bydd gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol rôl arbennig yng nghyd-destun y ddarpariaeth Gymraeg. Cefnogwn ymrwymiad Medr yn ei gynllun strategol drafft i ddatblygu cynllun cenedlaethol i gynyddu cyfleoedd ar gyfer dysgu ac asesu drwy gyfrwng y Gymraeg. Croesawn y ffaith fod datblygu darpariaeth Gymraeg yn un o'i bum nod strategol. Edrychwn ymlaen at gydweithio gyda Medr, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a rhanddeiliaid eraill i gyfrannu at ddatblygiadau yn y dyfodol.

Gobeithio y bydd y sylwadau uchod o gymorth i'r ymgynghoriad.

---

[4] Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau ar Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol
[5] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: *Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25*

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Yr eiddoch yn gywir,

**Efa Gruffudd Jones**
Comisiynydd y Gymraeg

**Efa Gruffudd Jones**
Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner



Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

SeneddPlant@senedd.cymru

27/01/2025

Annwyl Gadeirydd,

**Ymgynghoriad: Llwybrau at addysg a hyfforddiant ôl-16**

Diolch am y cyfle i gyfrannu at yr ymgynghoriad uchod. Un o amcanion strategaeth *Cymraeg 2050* Llywodraeth Cymru yw datblygu darpariaeth addysg ôl-orfodol sy'n cynyddu cyfraddau dilyniant ac yn cefnogi pawb, ni waeth pa mor rhugl eu Cymraeg, i ddatblygu sgiliau yn yr iaith i'w defnyddio yn gymdeithasol ac yn y gweithle. Bydd fy ymateb yn canolbwyntio ar sut gellid datblygu a chryfhau ymhellach lwybrau at addysg a hyfforddiant ôl-16 cyfrwng Cymraeg.

**Pwysigrwydd y sector addysg a hyfforddiant ôl-16 i strategaeth *Cymraeg 2050***

Un o'r prif heriau o ran cyflawni targedau *Cymraeg 2050* yw sicrhau bod mwy o bobl ifanc yn cadw gafael ar eu sgiliau Cymraeg ac yn eu defnyddio ar ôl gadael yr ysgol. Mae gan y sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol rôl allweddol i'w chwarae yn y cyd-destun hwn. Dyma'r cyfnod sy'n pontio addysg statudol a byd gwaith, ac mae cynyddu cyfleoedd i fyfyrwyr gynnal a datblygu eu sgiliau Cymraeg wrth iddynt hyfforddi mewn meysydd mwy penodol ac arbenigol yn hynod bwysig. Nid yn unig mae'n cynnig cyfleoedd i unigolion fagu hyder ieithyddol, mae hefyd yn dylanwadu ar ganfyddiad unigolion o bwysigrwydd yr iaith o fewn cyd-destun gwaith yng Nghymru. Gall hyn yn ei dro ddylanwadu ar batrymau defnydd ehangach.

Mae pwysigrwydd y sector addysg a hyfforddiant ôl-16 o ran creu gweithleoedd dwyieithog yn dod yn fwy amlwg fyth wrth ystyried bod tua 125 o sefydliadau ar hyd a lled Cymru dan gyfundrefn safonau'r Gymraeg erbyn hyn. Mae'r rhain yn cynnwys rhai o gyflogwyr mwyaf Cymru a does dim cwestiwn bod y gyfundrefn safonau yn gyfrifol am gynyddu'n sylweddol y galw am unigolion sy'n gallu gweithio yn ddwyieithog. Rhan allweddol o ddiwallu'r galw

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

cynyddol hwn fydd sicrhau bod y sector addysg yn creu gweithlu gyda sgiliau Cymraeg digonol, wedi'u dosbarthu yn strategol ar draws ac o fewn sefydliadau gwahanol.

**Adroddiad ymchwil am farn a phrofiadau dysgwyr ôl-16 mewn addysg cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog**

Ym mis Tachwedd 2023 gwnaethom gyhoeddi adroddiad ymchwil am farn a phrofiadau dysgwyr ôl-16 mewn addysg cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog mewn ysgolion a cholegau addysg bellach ledled Cymru. Dangosodd yr ymchwil yn glir iawn bwysigrwydd y Gymraeg i ddysgwyr yng Nghymru. Nodwyd bod cyfleoedd i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yn bwysig i siaradwyr Cymraeg wrth ddewis man astudio, yn ogystal â chyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg fel rhan o fywyd pob dydd yr ysgol neu'r coleg. Dangoswyd hefyd bod dysgwyr yn gweld yr iaith Gymraeg yn fantais ar gyfer eu rhagolygon gyrfaol.

Fodd bynnag, mae'r ymchwil hefyd yn amlygu llawer o'r rhwystrau sy'n bodoli o safbwynt darpariaeth addysg a hyfforddiant ôl-16 cyfrwng Cymraeg. Codwyd pryderon yng nghyd-destun y prif resymau oedd gan ddysgwyr dros beidio â dewis astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg, gan gynnwys diffyg darpariaeth cyfrwng Cymraeg a diffyg hyder yn eu sgiliau Cymraeg o'u cymharu â'u sgiliau Saesneg. Mae diffyg darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn rhai meysydd yn parhau yn rhwystr amlwg.

Rheswm arall cyffredin dros beidio ag astudio drwy gyfrwng y Gymraeg oedd canfyddiad dysgwyr fod eu hastudiaethau pellach yn debygol o fod yn Saesneg neu fod gwell rhagolygon astudio yn Saesneg, yn eu tyb hwy. Mae hyn yn amlygu angen i godi ymwybyddiaeth dysgwyr o'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt i ddefnyddio eu Cymraeg wrth iddynt barhau â'u haddysg ac wrth fynd mewn i fyd gwaith, gan gynnwys manteision gwneud hynny. Dylid gwneud hyn yn rhan o'r pecyn o wybodaeth am ddewisiadau addysg a hyfforddiant, cymorth gyrfaoedd a phrofiad gwaith a gynigir i bobl ifanc, gan ysgolion, darparwyr addysg a hyfforddiant ôl-orfodol a Gyrfa Cymru.

Cododd yr ymchwil gwestiwn hefyd ynglŷn â'r posibilrwydd y gallai darparu rhagor o gyfleoedd i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg fod yn fodd o gynyddu'r nifer sy'n dewis parhau i astudio yng Nghymru a lleihau nifer y bobl ifanc sgilgar sy'n gadael y wlad. O'r siaradwyr Cymraeg oedd yn bwriadu parhau â'u haddysg ar ôl gadael yr ysgol neu'r coleg, 40% yn unig oedd yn bwriadu aros yng Nghymru.

**Beth mae'r ystadegau yn eu dangos i ni am lwybrau at addysg a hyfforddiant ôl-16 cyfrwng Cymraeg**

Mae'n anodd iawn cymharu'r sector ôl-16 yn uniongyrchol gyda'r sector statudol o ran niferoedd a chanrannau sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog. Er hyn, mae'r data yn awgrymu bod gostyngiad eithaf sylweddol yn y niferoedd sy'n astudio cyfran

sylweddol o'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn y sector ôl-16 o'i gymharu â'r sector statudol. Mae hyn yn arbennig o wir wrth ystyried y dysgwyr sy'n symud i astudio mewn colegau addysg bellach neu ddysgu seiliedig ar waith.

Er enghraifft, yn 2021/22 roedd 18% o ddisgyblion Blwyddyn 11 wedi eu cofrestru ar gyfer TGAU Cymraeg iaith gyntaf. Roedd 71% o'r disgyblion hyn wedi eu cofrestru ar gyfer o leiaf pump cymhwyster Lefel 1 neu 2 arall drwy gyfrwng y Gymraeg.[1] Gellir cyfrifo felly bod tua 13% o ddisgyblion yn astudio cyfran sylweddol o'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae ystadegau Llywodraeth Cymru ar weithgareddau dysgu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog mewn addysg ôl-16 yn ystod 2021/22 yn dangos mai 5.3% o weithgareddau dysgu oedd yn cael eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg.[2] Roedd 4.5% o'r gweithgareddau dysgu yn y categorïau 'dwyieithog', neu 'swm sylweddol o ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg', a 9.9% o weithgareddau dysgu lle roedd 'ychydig o ddysgu cyfrwng Cymraeg'. Diddorol yw nodi bod 15.9% o weithgareddau dysgu o fewn dosbarthiadau chweched drwy gyfrwng y Gymraeg, tra mai 0.2% oedd y ffigwr ar gyfer addysg bellach, a 0.5% ar gyfer dysgu seiliedig ar waith.

Mae'r data diweddaraf am y sector addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith yn dangos rhywfaint o gynnydd yn y gweithgareddau dysgu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog (gweler atodiad 1 a 2). Er hyn, mae'r cynnydd cyffredinol yn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn bennaf seiliedig ar gynnydd yn y gweithgareddau dysgu sy'n cynnwys 'ychydig o ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg'. Er na fyddem yn dymuno diystyru arwyddocâd y cynnydd hwn, mae angen sicrhau bod mwy o ddysgwyr yn parhau i astudio cyfran mwy sylweddol o'u hastudiaethau drwy gyfrwng y Gymraeg wrth iddynt symud i addysg a hyfforddiant ôl-16.

Yn y cyd-destun uchod mae'n bwysig iawn cydnabod y gwaith sylweddol sydd wedi digwydd ers ymestyn rôl y Coleg Cymraeg Cenedlaethol i fod yn gorff strategol cydnabyddedig ar gyfer datblygu'r Gymraeg ar draws y sectorau addysg uwch, addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith. Er enghraifft, yn 2019 cyhoeddwyd y *Cynllun Gweithredu Addysg Bellach a Phrentisiaethau cyfrwng Cymraeg*. Mae'r cynllun yn gosod camau gweithredu dros y tymor byr, canol a hir mewn perthynas â chwe maes strategol allweddol, gan gynnwys cynyddu capasiti staffio, gwella darpariaeth ac ehangu adnoddau. Mae'r datblygiadau hyn i'w croesawu'n fawr ac yn gosod sylfaen ar gyfer datblygiadau pellach wrth i'r Coleg a Medr gydweithio wrth symud ymlaen. Yn y cyd-destun hwn roeddem yn croesawu'r ffaith fod drafft o gynllun strategol cyntaf Medr yn cynnwys datblygu darpariaeth Gymraeg fel un o'r 5 nod strategol. Roeddem hefyd yn cefnogi ymrwymiad Medr i ddatblygu cynllun cenedlaethol i gynyddu cyfleoedd ar gyfer dysgu ac asesu trwy gyfrwng y Gymraeg. Edrychwn ymlaen at gydweithio gyda Medr, sy'n bwriadu defnyddio dull cydweithredol i ddatblygu'r ddarpariaeth

---

[1] Cyfrifiad ysgolion blynyddol ar lefel disgyblion – gweler Adroddiad blynyddol *Cymraeg 2050* am ddadansoddiad cryno o'r data, tudalen 18 a 19. [Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr - Adroddiad blynyddol 2022-23]

[2] [Ceisiadau ystadegol ad-hoc: 19 i 30 Mehefin 2023 | LLYW.CYMRU]

Gymraeg ar draws y sector addysg drydyddol, gyda rôl arbennig ar gyfer y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

**Ysgolion, colegau addysg bellach a chyfeiriad polisi diweddar**

Yn hanesyddol, mae darpariaeth chweched dosbarth ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog wedi bod yn hollbwysig yng nghyd-destun ymdrechion i gynnal a datblygu sgiliau Cymraeg disgyblion oedran addysg ôl-orfodol. Fel mae'r data uchod yn profi, mae darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn chweched dosbarth yn llawer cryfach na'r hyn sydd wedi cael ei gynnig gan fwyafrif helaeth darparwyr addysg ôl-orfodol mewn colegau addysg bellach.

Yn ogystal â chryfhau darpariaeth yn y sector addysg bellach, felly, mae angen ystyried yn ofalus sut mae cefnogi ac adeiladu ar y ddarpariaeth mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Mae angen ystyried yn ofalus beth fydd rôl ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn nhirwedd addysg ôl-orfodol y dyfodol. Dylai hyn gynnwys cynllunio a chydweithio ar lefel ranbarthol rhwng ysgolion a cholegau addysg bellach i sicrhau fod darpariaeth ddigonol ar gael ac y caiff ei hyrwyddo er mwyn cynyddu nifer y dysgwyr ôl-16 mewn addysg cyfrwng Cymraeg ledled Cymru. Mae'n hanfodol fod y cynllunio strategol hwn yn digwydd er budd y Gymraeg, ac yn atgyfnerthu'r ddarpariaeth gref sy'n bodoli mewn ysgolion ar hyn o bryd.

**Hygyrchedd a daearyddiaeth darpariaeth addysg ôl-16 cyfrwng Cymraeg**

Mae addysg cyfrwng Cymraeg yn parhau i fod yn ddewis anoddach a mwy beichus i fwyafrif poblogaeth Cymru. Hynny yw, ar lefel gyffredinol, mae llawer llai o ysgolion cyfrwng Cymraeg o gymharu ag ysgolion cyfrwng Saesneg, ac ar gyfartaledd, mae'n fwy tebygol mai ysgol cyfrwng Saesneg fyddai'r dewis hawsaf ac agosaf i fwyafrif y boblogaeth. Mae hyn yn arbennig o wir yng nghyd-destun addysg a hyfforddiant ôl-orfodol, lle mae llai o ddarpariaeth yn gyffredinol, a llai o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn benodol. Mae'r sefyllfa yn amrywio ar hyd a lled Cymru ond heb os, mae daearyddiaeth darpariaeth addysg ôl-16 cyfrwng Cymraeg yn ei gwneud yn llai hygyrch ac yn rhwystr i nifer o ddysgwyr.

**Cludiant i addysg ôl-16**

Yn gysylltiedig â'r pwyntiau uchod, oherwydd bod llai o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg mae dysgwyr, ar gyfartaledd, yn byw ymhellach o'r ddarpariaeth. Golyga hyn, mewn llawer o ardaloedd, bod mynychu addysg neu hyfforddiant ôl-16 yn golygu gorfod teithio ymhellach, sydd hefyd yn debygol o fod â goblygiadau ariannol. Tra bod awdurdodau lleol yn gorfod darparu cludiant i addysg statudol (yn dibynnu ar drothwyon pellter penodol), darperir cludiant ôl-16 ar sail disgresiwn. Mae polisïau cludiant yn amrywio o un awdurdod lleol i'r llall, ond gwyddom nad yw nifer o awdurdodau lleol yn darparu cludiant am ddim i addysg a hyfforddiant ôl-orfodol. Yn aml, mae hyn yn cael effaith anghymesur ar ddysgwyr sy'n dymuno

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

mynychu addysg cyfrwng Cymraeg. Gwyddom am sawl enghraifft lle mae colegau addysg bellach yn cynnig cludiant am ddim i ddysgwyr, ond nid yw'r awdurdod lleol yn darparu cludiant i'r chweched dosbarth sy'n cynnig addysg cyfrwng Cymraeg.

Mae'r Comisiynydd wedi galw ar y Llywodraeth i ystyried ymrwymo i ddarparu cludiant am ddim i addysg ôl-16 cyfrwng Cymraeg, yn rhan o ymrwymiad ehangach i ddarparu cludiant am ddim i addysg ôl-16 yn gyffredinol. Byddai hyn yn hwyluso mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ac yn darparu cefnogaeth hollbwysig i deuluoedd. Er mwyn cyflawni targedau'r Llywodraeth ar gyfer addysg Gymraeg, mae sicrhau mynediad teg, trwy drefnu cludiant hwylus, yn allweddol.

**Cymwysterau cyfrwng Cymraeg**

Mae diffyg cymwysterau cyfrwng Cymraeg yn her ac mae'n golygu nad oes gan ddysgwyr cyfrwng Cymraeg yr un ystod o ddewis o gymwysterau â'u cyfoedion yn y sector cyfrwng Saesneg. Mae Cymwysterau Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r cymwysterau hynny sy'n cael eu cymeradwyo ganddynt fod ar gael i'w hasesu yn Gymraeg ac yn Saesneg. Felly, mae'r holl gymwysterau ôl-16 mewn pynciau a ddyluniwyd yn benodol i Gymru ar gael yn ddwyieithog. Fodd bynnag, nid oes rheidrwydd i'r cymwysterau y tu allan i'r ystod hon, a ddynodir gan Gymwysterau Cymru, gael eu darparu yn Gymraeg. Oherwydd hyn, yn Saesneg yn unig y cynigir llawer o gymwysterau i ddysgwyr yng Nghymru. Mae gan Gymwysterau Cymru strategaeth i gynyddu argaeledd cymwysterau cyfrwng Cymraeg a dylid cefnogi'r datblygiadau yn y cyfeiriad hwn.

**Patrymau astudio addysg uwch**

Mae data diweddaraf Llywodraeth Cymru ar lif trawsffiniol myfyrwyr llawn amser yn ategu canlyniadau ein hadroddiad ymchwil ar ddyheadau myfyrwyr o ran dewis lleoliad prifysgol. Yn 2020/21 aeth 62% o fyfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig o Gymru i brifysgolion yng Nghymru tra bod 37% wedi mynd i brifysgolion yn Lloegr. Yn yr un flwyddyn, aeth 95% o fyfyrwyr o Loegr i brifysgolion yn Lloegr a 95% o fyfyrwyr o'r Alban i brifysgolion yn yr Alban. Dengys hyn fod canran sylweddol o fyfyrwyr o Gymru yn gadael eu gwlad i astudio, o'i gymharu â sefyllfa myfyrwyr o Loegr a'r Alban. Mae gan hyn oblygiadau o safbwynt y niferoedd fydd yn parhau i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg, yn ogystal â'u gallu a'r tebygolrwydd y byddant yn gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg yn y dyfodol. Ni wyddom am unrhyw ddata sy'n olrhain cyfran y myfyrwyr hyn sy'n dod yn ôl i Gymru ar ôl graddio. Dylid ystyried y sefyllfa hon yng nghyd-destun Academi Seren y Llywodraeth a sut i gynnig cefnogaeth i'n dysgwyr mwyaf galluog i gynnal a datblygu eu sgiliau Cymraeg a chael gyrfa yng Nghymru.

Mae gwaith y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn y sector addysg uwch, ar y cyd â phrifysgolion, wedi cyfrannu at wella sefyllfa'r Gymraeg yn y sector a chynyddu nifer y myfyrwyr sy'n astudio trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae data diweddaraf y Llywodraeth ar y Gymraeg mewn addysg uwch yn destun pryder, fodd bynnag. Dengys y data fod 10,470 o siaradwyr Cymraeg rhugl,

sef 14% o'r myfyrwyr oedd yn hanu o Gymru, wedi cofrestru gyda darparwyr addysg uwch yma yn 2021/22.[3] Dim ond 3,065 o siaradwyr Cymraeg rhugl a astudiodd rywfaint o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg ac roedd 7,405 o siaradwyr Cymraeg rhugl na astudiodd unrhyw ran o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r data hwn yn dangos yn glir mai un o'r prif heriau o hyd yw perswadio myfyrwyr i fanteisio ar y ddarpariaeth sy'n bodoli.


**Bil y Gymraeg ac Addysg**

Mae'r Llywodraeth wedi cyflwyno Bil y Gymraeg ac Addysg, gyda'r nod o sicrhau bod yr holl ddysgwyr yng Nghymru, erbyn diwedd eu cyfnod o addysg orfodol, yn ddefnyddwyr Cymraeg annibynnol. Dylai'r sector addysg a hyfforddiant ôl-16 gynllunio ar gyfer y cynnydd yn sgiliau Cymraeg pobl ifanc ledled Cymru a ddaw yn sgil y ddeddfwriaeth arfaethedig. Fel y nodir yn *Cymraeg 2050*, "mae gan ddarparwyr addysg a hyfforddiant ôl-orfodol ran allweddol i'w chwarae o ran cynnal sgiliau Cymraeg dysgwyr er mwyn ateb y galw cynyddol am weithlu dwyieithog". Bydd gan Medr ran ganolog yn cydlynu'r gwaith hwn, yn benodol trwy lunio cynllun cenedlaethol ar gyfer y Gymraeg. Bydd Medr hefyd yn gallu defnyddio ei fframwaith rheoleiddio i osod gofynion ar ddarparwyr yng nghyd-destun y Gymraeg, ynghyd â nifer o agweddau eraill.

Un o gonglfeini'r Bil yw datblygu continwwm iaith Gymraeg fel modd o ddiffinio, disgrifio a chofnodi cyrhaeddiad ieithyddol dysgwyr. Gallai fod cyfle i'r sector addysg a hyfforddiant ôl-16 fabwysiadu'r continwwm fel modd o sicrhau y bydd pobl ifanc yn parhau i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg. Dylid sicrhau fod llwybrau clir tuag at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a darpariaeth ddwyieithog sy'n cynnal ac yn datblygu sgiliau Cymraeg dysgwyr trwy'r sector ôl-orfodol.

Gobeithio y bydd y sylwadau uchod o gymorth i'r ymgynghoriad.

Yr eiddoch yn gywir,



**Efa Gruffudd Jones**
Comisiynydd y Gymraeg

---

[3] Y Gymraeg mewn Addysg Uwch, 2021/22

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

**Atodiad 1:** Gweithgareddau dysgu yn ôl cyfrwng y ddarpariaeth mewn addysg bellach, ac eithrio dysgu yn seiliedig ar waith, Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru, Llywodraeth Cymru[4][5]

| | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cymraeg yn unig** | **0.1%** 690 | **0.3%** 1265 | **0.3%** 985 | **0.2%** 755 | **0.3%** 880 | **0.3%** 915 | **0.3%** 890 | **0.1%** 410 | **0.07%** 250 |
| **Dwyieithog** | **3%** 13,730 | **2.3%** 8,755 | **1.1%** 3,875 | **2.9%** 10,010 | **2%** 6,810 | **2.7%** 7,890 | **3%** 9,005 | **2.6%** 8,410 | **2.5%** 8,355 |
| **Swm sylweddol o ddysgu drwy gyfrwng Cymraeg** | **0.6%** 2,810 | **0.8%** 3,020 | **0.4%** 1,570 | **0.7%** 2,325 | **1.3%** 4,425 | **1.0%** 2,885 | **0.8%** 2,405 | **1%** 3,375 | **1.4%** 5,185 |
| **Ychydig o ddysgu trwy gyfrwng Cymraeg** | **3.5%** 16,040 | **3.9%** 15,145 | **2.8%** 9,880 | **3.5%** 12,160 | **5.3%** 18,490 | **5.0%** 14,690 | **6.8%** 20,060 | **9.3%** 30,410 | **10.5%** 38,125 |
| **Saesneg yn unig** | **92.8%** 431,620 | **92.7%** 355,530 | **95.4** 337,680 | **92.7%** 322,910 | **90.1%** 313,190 | **90.3%** 265,505 | **87.8%** 259,380 | **86%** 279,845 | **85%** 308,690 |
| **Cymraeg a dwyieithog - cyfanswm** | **7.2%** | **7.3%** | **4.6%** | **7.3%** | **8.9%** | **9%** | **10.9%** | **13%** | **14.5%** |

[4] Gweithgareddau dysgu yn ôl cyfrwng y ddarpariaeth a'r math o ddarparwr mewn addysg bellach, ac eithrio dysgu yn seiliedig ar waith

[5] Mae'r data cyhoeddus ar Stats Cymru ychydig yn wahanol i ddata sy'n cael ei gynnwys yn adroddiadau blynyddol *Cymraeg 2050* a'r data y cyfeirir ato ar dudalen 3 ein hymateb uchod.

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

**Atodiad 2:** Gweithgareddau dysgu yn ôl cyfrwng y ddarpariaeth mewn dysgu yn seiliedig ar waith, Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru, Llywodraeth Cymru[6]

| | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cymraeg yn unig** | **0.3%** 620 | **0.4%** 685 | **0.3%** 515 | **0.3%** 520 | **0.4%** 565 | **0.5%** 675 | **0.8%** 945 | **0.7%** 750 | **0.6%** 710 |
| **Dwyieithog** | **3.4%** 6,475 | **3.1%** 5,045 | **3.2%** 5,135 | **2.9%** 4,850 | **2.9%** 4,305 | **2.9%** 3,620 | **3%** 3,730 | **2.9%** 3,065 | **3%** 3,640 |
| **Swm sylweddol o ddysgu drwy gyfrwng Cymraeg** | **0.2%** 325 | **0.3%** 415 | **0.3%** 465 | **0.3%** 530 | **0.3%** 435 | **0.3%** 380 | **0.4%** 555 | **0.6%** 595 | **0.5%** 580 |
| **Ychydig o ddysgu trwy gyfrwng Cymraeg** | **3.2%** 6,110 | **4.7%** 7,675 | **6.9%** 10,945 | **6.7%** 11,010 | **8.3%** 12,355 | **9.3%** 11,495 | **13.3%** 16,525 | **19.5%** 20,450 | **25.5%** 30,325 |
| **Saesneg yn unig** | **92.8** 174,875 | **91.5%** 148,665 | **89.3%** 142,285 | **89.3%** 147,775 | **88.1%** 130,455 | **87.0%** 107,850 | **82.5%** 102,239 | **76.3%** 79,810 | **70%** 83,210 |
| **Cymraeg a dwyieithog - cyfanswm** | **7.2%** | **8.5%** | **10.7%** | **10.3%** | **11.9%** | **13.0%** | **17.5%** | **23.7%** | **29.6%** |

[6] Gweithgareddau dysgu yn ôl cyfrwng y ddarpariaeth a'r math o ddarparwr mewn dysgu yn seiliedig ar waith